# Sesiwn gyfarwyddo
# Chwefror 2006

Cynhaliwyd digwyddiad olaf Rhwydwaith Economi Cymdeithasol Wrecsam (WSEN) yn Neuadd Goffa Gresffordd. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gyda dros 50 o fynychwyr o sefydliadau lleol a gafodd y cyfle i gael copïau o'r Llawlyfr ar gyfer Datblygu Mentrau Cymdeithasol a chlywed am lwyddiant Prosiect Economi Cymdeithasol Wrecsam a dyfodol y gefnogaeth i fentrau cymdeithasol yn yr ardal hon gan gynrychiolwyr o'r sector.

Agorwyd y digwyddiad gan Nicola Millar, Rheolwr Economi Cymdeithasol Wrecsam, gyda chyflwyniad am Brosiect Economi Cymdeithasol Wrecsam a'i gyraeddiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yna, lansiodd Nicola'r Llawlyfr ar gyfer Datblygu Mentrau Cymdeithasol, sef allbwn mawr i'r prosiect mewn perthynas â helpu sefydliadau lleol i edrych ar fodelau busnes fel llwybr i gynaladwyedd. Siaradodd Jerry Spencer o Liverpool Plus am fanteision y bartneriaeth rhwng ei sefydliad ef a Phrosiect Economi Cymdeithasol Wrecsam a oedd wedi arwain at gynhyrchu adnodd arbennig i sefydliadau yn ardaloedd Wrecsam a Lerpwl. Bu i Jerry ganmol ymdrechion y rhwydwaith hefyd a mynegi ei obaith y gall barhau mewn rhyw ffordd ar ôl i'r prosiect ddod i ben, ac y byddai hyn yn ddibynnol ar ymroddiad ac awydd sefydliadau'r economi cymdeithasol lleol i ffurfio mudiad menter gymdeithasol.

Rhoddodd Chris Morrish o Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) drosolwg o ymroddiad LlCC i sector yr economi cymdeithasol a menter gymdeithasol. Pwysleisiodd y gosodwyd y targedau ar gyfer y Strategaeth Menter Gymdeithasol bresennol i Gymru gan weithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector menter gymdeithasol ei hun ac y byddai'r ddogfen yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i hailysgrifennu ar ôl tair blynedd.

Mae agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru at y dyfodol hefyd yn cynnwys corff cynrychiadol ar gyfer y sector, cronfa ddata o fentrau cymdeithasol yng Nghymru, cyhadledd flynyddol i'r sector a hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth penodol i'r sector.

Rhoddodd Gail Merriman o Awdurdod Datblygu Cymru (ADC) fanylion y gefnogaeth sydd ar gael trwy ADC a phenodiad Janet Jones, Rheolwr Economi Cymdeithasol Gogledd Cymru. Soniodd Gail am y posibilrwydd o gynnal rhaglenni mentora sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd, ond pwysleisiodd hefyd fod cefnogaeth yn y dyfodol yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yn dilyn cyfuniad ADC â LlCC ar 1af Ebrill.

Anerchodd Sandra Hughes o AVOW yr aelodau gyda chynlluniau i barhau â'r rhwydwaith yn y dyfodol a rhoddodd wybod y bydd AVOW yn cysylltu â holl aelodau WSEN i gael awgrymiadau ar gyfer ffurf y rhwydwaith. Rhoddodd Sandra wybod hefyd y bydd AVOW yn parhau i gynnig hyfforddiant meithrin gallu a chefnogaeth a chyfarwyddyd i sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector cymunedol a gwirfoddol ac ni fyddai hyn yn dod i ben unwaith i Brosiect Economi Cymdeithasol Wrecsam gael ei gwblhau.

Yn olaf, daeth Nicola Millar â'r digwyddiad i ben gan ddiolch i'r aelodau am y gefnogaeth yr oeddent wedi'i darparu i'r rhwydwaith a'i ddigwyddiadau a thrwy dalu teyrnged i Sasha Hughes, Swyddog Datblygu'r Economi Cymdeithasol, am ei hymroddiad a'i gwaith caled yn ystod y prosiect.